# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 21 a 28 Medi 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gyflawni targed Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau cynnydd o bum pwynt canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2011? (WAQ47825) **[W]**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae 'Iaith Pawb' yn nodi sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth o Gymru wirioneddol ddwyieithog, gan gynnwys y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan 5 y cant erbyn 2011. Mae'n cynnwys dros 60 o gamau penodol dros nifer o feysydd polisi ac mae wedi'i ategu gan £28 miliwn ychwanegol i gefnogi'r Gymraeg yn uniongyrchol rhwng 2003-06. Yr wyf yn adrodd bob blwyddyn ar berfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau yn 'Iaith Pawb' a chynhelir adolygiad trwyadl o 'Iaith Pawb' yn 2007.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arddangos gwaith y diweddar Kyffin Williams? (WAQ47827)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi mynegi fy nghefnogaeth i gynnig Ynys Môn i ymestyn Oriel Ynys Môn, Llangefni er mwyn arddangos gwaith Syr Kyffin Williams.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi adroddiad yr arolygydd ynghylch uwchraddio rhannau o'r A48, ac os gwnaiff, pryd? (WAQ47887)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Byddaf yn cyhoeddi adroddiad yr arolygydd pan fyddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniad fel rhan o broses y gweithdrefnau statudol a disgwyliaf wneud hynny erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Carl Sargeant:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn gwbl gyfarwydd ag Iechyd a Diogelwch cyn iddynt ddechrau gweithio am gyflog? (WAQ47810)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Rhoddir gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc am bwysigrwydd iechyd a diogelwch mewn cyflogaeth fel rhan o addysg gysylltiedig â gwaith, elfen o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir yn ystod cyfnod allweddol 4. Dywed y fframwaith addysg gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru y dylai pob disgybl gael y cyfle yn ystod cyfnod allweddol 4 i ymgymryd â phrofiad gwaith am wythnos o leiaf. Mae'r fframwaith hefyd yn nodi pwysigrwydd dilyn arferion gwaith diogel.

Fel rhan o'u paratoad ar gyfer profiad gwaith, mae disgyblion eu cael eu briffio ac yn cael gwybodaeth sy'n pwysleisio pwysigrwydd iechyd a diogelwch yn y gweithle. Gallai hyn gael ei ddarparu gan yr ysgol neu gyda chymorth ac ymwneud uniongyrchol Gyrfa Cymru. Atgyfnerthir y negeseuon hyn yn ystod y profiad ei hun a gellir cyfeirio atynt eto yn ystod y dadbriffio ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid ar gyfer Coleg y Rhyl? (WAQ47869)

**Jane Davidson:** Yn dilyn cais llwyddiannus drwy gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, dyfarnwyd £2.62 miliwn o arian grant i Goleg Llandrillo tuag at ailddatblygu ei gampws yn y Rhyl. Bydd oddeutu £1.2 miliwn o arian y coleg yn talu'r gweddill ar y prosiect hwn sy'n costio tua £3.8 miliwn.

Yn fyr, bydd y prosiect yn cynnwys datblygu canolfan sgiliau adeiladu o'r radd flaenaf, ystafelloedd trin gwallt a therapi harddwch, cyfleusterau newydd cymorth i fyfyrwyr, a chanoli'r cyfleusterau hyfforddi presennol i gampws y Rhyl.

Mae'r cyfraniad sylweddol hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn arwydd clir o'n hymrwymiad i wella'r ddarpariaeth sgiliau a hyfforddi ar draws Cymru gyfan. Pan fydd y datblygiad newydd yng Ngholeg y Rhyl wedi'i gwblhau, yr wyf yn siwr y bydd yn esiampl i eraill ac yn rhoi i sir Ddinbych ganolfan ragoriaeth ar gyfer astudiaethau galwedigaethol ac academaidd.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed gydag addysg 'blynyddoedd cynnar'? (WAQ47874)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn llwyr gydnabod mor hanfodol yw'r blynyddoedd cynnar a'r angen i ddarparu'r amgylchedd a'r cyfleoedd iawn i blant i ddysgu, datblygu a ffynnu. Drwy'r grantiau blynyddoedd cynnar sydd wedi cael eu darparu i'r awdurdodau addysg lleol yr ydym wedi sicrhau bod lle addysg rhan-amser, rhad ac am ddim, ar gael i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd. Eleni mae grantiau refeniw gwerth £17.6 miliwn a grantiau cyfalaf o £6 miliwn ar gael i'r awdurdodau addysg lleol i ddarparu eu lleoedd addysg blynyddoedd cynnar.

Byddwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar hon pan gyflwynir y cyfnod sylfaen o fis Medi 2008. Bydd y cyfnod sylfaen yn darparu cwricwlwm a hynny mewn amgylchedd a fydd yn galluogi plant i gaffael a datblygu sgiliau a fydd yn eu paratoi ar gyfer eu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005? (WAQ47814)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae darpariaethau Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 eisoes mewn grym yng Nghymru, yn cynnwys y rheini'n ymwneud ag ymestyn y drosedd o ollwng sbwriel, newidiadau i'r amddiffyniad statudol yn ymwneud ag arddangosion hysbysebion yn anghyfreithlon, troseddau'n ymwneud â gollwng, trin neu waredu gwastraff heb awdurdod neu mewn modd niweidiol, camau gorfodi mewn perthynas â gwerthu paent aerosol i blant, dyfarnu costau a achoswyd mewn cysylltiad ag ymchwilio i, glanhau a gorfodi tipio anghyfreithlon, a swyddogaethau gwaredu gwastraff awdurdodau lleol.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cynnig dirprwyo rhagor o swyddogaethau o dan y Ddeddf i'r Cynulliad ym mis Hydref. Bydd y rhain yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â cherbydau gadawedig, cerbydau wedi eu parcio'n anghyfreithlon, tipio anghyfreithlon, cludo a gollwng a

gwaredu gwastraff, rheoli cwn, swn, niwsans statudol a throlïau siopa a throlïau bagiau.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog ailgylchu gwastraff yng Nghymru? (WAQ47816)

**Carwyn Jones:** Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ‘Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru" yn 2002. O ran gwastraff trefol, mae’r strategaeth yn gosod y fframwaith polisi a strategol sy’n annog ailgylchu gwastraff. Cefnogir hyn drwy ddarparu cyllid i’r awdurdodau lleol ar ffurf y grant rheoli gwastraff yn gynaliadwy, grant penodol i hyrwyddo ailgylchu gan awdurdodau lleol. Hyd yma mae’r grant wedi darparu bron i £140 miliwn ac eleni’n unig mae’n darparu dros £32 miliwn.

Cefnogir y grant hwn gyda chyllid arall o du Llywodraeth y Cynulliad drwy’r cynllun ailgylchu strategol a chyllido gwaith datblygu marchnadoedd i ddeunydd eildro drwy Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyfleusterau compostio enghreifftiol sy’n gallu cymryd gwastraff bwyd a datblygu marchnadoedd i’r cynnyrch compost.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau ailgylchu a chompostio heriol yn unol â thargedau’r UE i arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac mae wedi cadarnhau’n ddiweddar y ceir cyfrif rhai deunyddiau sy’n cael eu compostio gartref tuag at y targedau hyn. Mae’r gwaith o hyrwyddo polisïau a strategaeth Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei wneud drwy’r Cynllun Craff am Wastraff, drwy hysbysebion yn y cyfryngau ac amryw o gynlluniau hyrwyddo.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei benderfyniad i alw i mewn y cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu Parc y Strade, Llanelli, ac a wnaiff ef roi manylion ynglyn ag union amseriad ei benderfyniad? (WAQ47911)

**Carwyn Jones:** Gelwais y cais cynllunio hwn i mewn am fod y cynnig yn codi materion yr ymddengys eu bod yn groes i bolisi cynllunio. Gwneuthum y penderfyniad cyn gynted ag yr oeddwn yn credu fy mod yn ymwybodol o’r holl ffeithiau perthnasol.

Mae’r achos gyda’r arolygiaeth gynllunio yn awr, ac mae trefniadau ar y gweill ar gyfer ymchwiliad lleol cyhoeddus. Yr wyf yn disgwyl i benderfyniad gael ei wneud yn hanner gyntaf 2007.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ddogfennau a ystyriwyd ganddo cyn gwneud ei benderfyniad i alw i mewn y cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu Parc y Strade, Llanelli? (WAQ47912)

**Carwyn Jones:** Ar ôl derbyn copïau o’r cais cynllunio a dogfennau cysylltiol, cynlluniau a mapiau yn nodi’r cynigion, rhoddodd fy swyddogion gyngor imi am y prif faterion yng nghyd-destun ‘Polisi Cynllunio Cymru. Yr ydym hefyd wedi derbyn llawer o geisiadau yn gofyn inni alw’r cais i mewn, gohebiaeth gan rai sydd â diddordeb (o blaid ac yn erbyn y cynnig) a deiseb, a chafodd cynnwys yr holl sylwadau hyn hefyd ei gymryd i ystyriaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd welodd ef y llythyr a anfonwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, dyddiedig 26ain Gorffennaf, ynghylch y cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu Parc y Strade, Llanelli, ac a yw'n gallu cadarnhau a oedd hyn cyn neu ar ôl penderfynu galw'r cais cynllunio i mewn? (WAQ47913)

**Carwyn Jones:** Yr oedd y llythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd at Gyngor Sir Caerfyrddin wedi’i ddyddio 25 Gorffennaf a derbyniasom ni ef y bore canlynol. Trafodais y mater gyda’r swyddogion cyn imi wneud fy mhenderfyniad. Fodd bynnag, ysgrifennodd Asiantaeth yr Amgylchedd at y Cyngor Sir hefyd ar 15 Mai a 15 Gorffennaf ac yr oedd y llythyron hyn yn mynegi gwrthwynebiadau i’r cynigion a phryderon amdanynt.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu canllawiau a roddir i awdurdodau ar gyfer pennu praeseptau’r dreth gyngor yn 2007-08? (WAQ47845)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid wyf wedi rhoi unrhyw ganllawiau o ran lefel y dreth gyngor yn 2007-08.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weinyddu grantiau caledi dewisol ar gyfer trethi annomestig yng Nghymru? (WAQ47846)

**Sue Essex:** Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi’r pwer i awdurdodau lleol i ryddhau busnesau rhag gorfod talu’r trethi ar sail caledi gwirioneddol. Mae’r Cynulliad yn cyllido 75 y cant o unrhyw ryddhad a roddir, a’r awdurdod lleol yn cyllido’r 25 y cant sy’n weddill o dderbyniadau’r dreth gyngor. Rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon y byddai’r trethdalwr yn wynebu caledi pe na bai rhyddhad yn cael ei roi, a’i bod er lles y rhai sy’n talu’r dreth gyngor iddynt wneud hynny.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gyllido llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ47847)

**Sue Essex:** Bydd setliad cyllid dros dro llywodraeth leol am 2007-08 yn cael ei gyhoeddi ar ôl cyhoeddi cyllideb ddrafft y Cynulliad yn ddiweddarach eleni.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf i ni am ei thrafodaethau gydag awdurdodau lleol yn dilyn adolygiad Beecham? (WAQ47848)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi ymweld â'r rhan fwyaf o'n hawdurdodau lleol dros gyfnod yr haf ac mae'r ymateb i Beecham wedi bod ar yr agenda ym mhob cyfarfod. Cafodd pob awdurdod ei friffio a'i baratoi er mwyn trafod yr agenda. Maent yn disgwyl yn frwd am y datganiadau y mae'r Llywodraeth ar fin eu gwneud am wasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol.

**Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer annog mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol? (WAQ47849)

**Sue Essex:** Yr ydym eisoes yn cefnogi nifer o gynlluniau mawr sy'n annog mwy o gydweithredu ar draws Cymru rhwng llywodraeth leol a'i phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cronfa wella 'Creu'r Cysylltiadau', rhaglen cynllun gofodol Cymru, cynllunio cymunedol a byrddau partneriaeth rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bwriadaf gyhoeddi datganiad polisi am lywodraeth leol yng ngwanwyn 2007. Bydd hwn yn nodi'n fanwl sut y dylai llywodraeth leol gyflawni ei rôl allweddol yn gwireddu gweledigaeth Beecham, a sut y byddwn yn ei chynorthwyo i wneud hynny dros y tair i'r pedair blynedd nesaf. Bydd rhaglen ymgynghori helaeth yn dechrau yn ddiweddarach y mis hwn gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill i lywio'r datganiad polisi hwn. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i:

> wella'r ffordd o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, ni waeth pwy sy'n eu darparu;
>
> yr angen am i Lywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a phartneriaid eraill weithio gyda'i gilydd yn effeithiol ar ddatblygiad tymor hir strategol yr ardaloedd isranbarthol allweddol ar draws Cymru;
>
> sicrhau bod partneriaethau'r strategaeth gymunedol yn dod yn bartneriaeth o bartneriaethau yng ngwir ystyr hynny ar lefel awdurdod lleol a'u bod yn effeithiol yn rhoi'r amcanion y cytunwyd arnynt i'w hardal ar waith.

**Owen John Thomas:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau cydweithredu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol? (WAQ47850)

**Sue Essex:** Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 lunio cynllun sy'n nodi sut, wrth roi ei swyddogaethau ar waith, y mae'n bwriadu cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n ofynnol hefyd yn ôl i Ddeddf i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu a chynnal corff o'r enw Cyngor Partneriaeth Cymru. Mae'r cynllun yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo a gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac mae'n ofyniad ynddo bod y Cynulliad Cenedlaethol, ar lefel aelodau a swyddogion, yn ystyried buddiannau llywodraeth leol ym mhob agwedd o'i waith.

Yr ydym hefyd wedi nodi'r amcanion a'r dyheadau yr ydym yn eu rhannu gyda phob awdurdod lleol yn y cytundebau polisi yr ydym wedi'u cwblhau gyda hwy. O dan y cytundebau, mae gan bob awdurdod hawl i gyfran o gronfa gwerth £31 miliwn yn gyfnewid am wneud cynnydd digonol neu well tuag at y targedau yn y cytundebau.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfrifoldebau llywodraeth leol newydd? (WAQ47854)

**Sue Essex:** Cyhoeddais ddatganiad ar y cyd â CLlLC yn 2003 yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd cynlluniau newydd a chyfrifoldebau newydd yn y dyfodol yn cael eu cyllido'n llawn cyn iddynt gael eu trosglwyddo i lywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i ymrwymo i'r egwyddor hon.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y rhedir cofrestru etholiadol gan awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ47855)

**Sue Essex:** Fel y gwyddoch wrth gwrs, mae'r mater hwn wedi bod yn destun trafodaeth yn ddiweddar yn ein grwp cynllunio etholiadau ac yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr wyf finnau fel chithau yn poeni bod cynifer o bobl nad ydynt yn cofrestru, er ei bod yn ymddangos bod hyn yn is yng Nghymru drwyddi draw nag yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd drwyddynt draw.

Er nad oes gan y Cynulliad swyddogaethau datganoledig yn ymwneud â chofrestru, gobeithiaf y bydd y dyletswyddau newydd a roddir ar swyddogion cofrestru yn Neddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006, y cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'r safonau perfformiad sy'n cael eu datblygu gan y Comisiwn Etholiadol yn gwella pethau i ryw raddau.

Mae'n holl bwysig fod y cyhoeddusrwydd wrth i etholiadau'r Cynulliad agosáu, gan y Comisiwn Etholiadol ac, ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan y Cynulliad ei hun, yn chwarae rhan yn cynyddu'r nifer sy'n cofrestru yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes llywodraeth leol yn Sir y Fflint? (WAQ47856)

**Sue Essex:** Yr oedd perfformiad Cyngor Sir y Fflint yn erbyn y targedau yn ei gytundeb polisi yn ddigon cryf y llynedd imi gytuno i dalu ei grant cymell perfformiad o £1,468,919 iddo.

Mae fy swyddogion yn dal i adolygu perfformiad Sir y Fflint yn 2005-06 ond mae’n ymddangos yn gynnar yn y broses fod perfformiad yr awdurdod yn dal i wella. Yr wyf yn arbennig o falch fod Sir y Fflint wedi rhagori ar ei thargedau yn y gwasanaethau y mae’n eu darparu i bobl ifanc. Er enghraifft, mae presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd wedi cynyddu; mae’r nifer o blant sy’n gadael addysg heb gymhwyster wedi gostwng; ac mae’r nifer o blant yng ngofal yr awdurdod sy’n newid ysgol unwaith neu fwy hefyd wedi gostwng.

Yr wyf hefyd yn falch fod yr awdurdod wedi dangos perfformiad cryf unwaith eto yn erbyn y targedau effeithlonrwydd ynni. Mae Sir y Fflint wedi lleihau’r gollyngiadau carbon deuocsid o’i adeiladau ac wedi cyrraedd y chwartel perfformiad uchaf o ran lleihau’r defnydd o ynni yn ei stoc dai.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynghorau tref a chymuned yng Nghymru? (WAQ47857)

**Sue Essex:** Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ychwanegu at y gyfundrefn llywodraeth leol drwyddi draw ac maent yn dod â buddion pwysig i’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn awr ar adeg pan mai blaenoriaeth bennaf Llywodraeth y Cynulliad yw gwella’r gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd i ddod.

Mae canolbwyntio ar ddinasyddion a chydweithredu â dinasyddion yn ganolog i’n dull gweithredu ac yr ydym yn glir ein meddwl mai’r dull hwn sy’n gweddu orau i faint, gwerthoedd ac agweddau Cymru.

O fewn yr agenda hon, mae cynghorau tref a chymuned yn nes at yr etholwyr nag unrhyw haen arall o lywodraeth. Mae hyn yn golygu bod ganddynt lawer o ffyrdd uniongyrchol o ganfod a gwireddu blaenoriaethau dinasyddion a chymunedau o ran gwasanaethau, ymgysylltu a gweithgareddau. Mae’r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Syr Jeremy Beecham am ei adolygiad o’r ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu cyflenwi, ‘Ar Draws Ffiniau’, yn argymell y dylai awdurdodau lleol weithio gyda chynghorau cymuned fel eiriolwyr dinasyddion a darparwyr gwasanaethau lle mae’r gallu ganddynt i gyflawni’r swyddogaethau hyn. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad yr adolygiad hwn y llynedd fel rhan o’r cynllun gweithredu i roi ein strategaeth ‘Creu’r Cysylltiadau’ ar waith a byddwn yn cyhoeddi ein hymateb yn ddiweddarach eleni.

Edrychaf ymlaen at i’r cynghorau cymuned a thref barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ansawdd bywyd eu cymunedau ac at agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Peter Black:** A yw'r Gweinidog yn gallu adrodd am unrhyw gynnydd a wnaed ers cyhoeddi adroddiad Sunderland ar drefniadau etholiadol llywodraeth leol? (WAQ47859)

**Sue Essex:** Cynhyrchodd y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sunderland, adroddiad ym mis Gorffennaf 2002 a oedd yn cynnwys 33 o argymhellion am drefniadau etholiadol llywodraeth leol. Darparwyd ymateb manwl i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y pryd a darparwyd papurau diweddaru wedi hynny i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r rhain i gyd ar gael ar wefan y Cynulliad.

Methodd cynnig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y pryd i dderbyn pob un o'r 33 o argymhellion yn adroddiad Sunderland. Yr oedd hyn oherwydd anghytuno am gynrychiolaeth gyfrannol. Mynegodd Llywodraeth y Cynulliad ei bwriad i beidio â bwrw ymlaen i weithredu cynrychiolaeth gyfrannol.

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion. Mae hyn yn cynnwys:

- paratoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r etholiadau lleol yn 2004;
- gwaith sy'n parhau gyda'r Comisiwn Etholiadol wedi ei anelu at bleidleiswyr ifanc, yn cynnwys Diwrnod Democratiaeth y byddaf yn mynd iddo yng Nghaerdydd ar 28 Medi;
- mae'r oriau pleidleisio wedi cael eu hymestyn tan 10pm mewn etholiadau cyngor;
- mae ymgyrch ar y gweill gyda CLlLC, Solace a'r Comisiwn Etholiadol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r etholiadau lleol yn 2008 a chynyddu nifer yr ymgeiswyr. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â chyflogwyr gyda'r nod o'i gwneud yn haws i'r rhai sydd mewn swyddi amser llawn i ystyried bod yn aelodau o gyngor; ac
- mae ein grwp cynllunio etholiadau yn hyrwyddo cynlluniau etholiadol peilot yn etholiadau 2008.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau awdurdodau lleol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ47860)

**Sue Essex:** Mae'n anodd cyffredinoli am ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan chwe awdurdod lleol gwahanol. Mae safon y gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny, fodd bynnag, yn dda yn gyffredinol ac yn gwella. Er enghraifft, yr wyf yn arbennig o falch fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyrraedd pob un bron o'i dargedau heriol o dan ei gytundeb polisi yn 2005-06, a'i fod yn un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gael ei grant cymell perfformiad. Mae'n galonogol hefyd gweld y gweddnewidiad llwyddiannus a chyflym ym mherfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dilyn y problemau yno rai blynyddoedd yn ôl, a gofnodwyd yn helaeth.

Yr wyf yn fodlon iawn hefyd â lefel yr ymrwymiad i gydweithredu a gweithio ar y cyd a ddangoswyd gan yr awdurdodau lleol yn y De-ddwyrain, boed hynny drwy'r cynllun gofodol, pwyllgorau cyd-drefnu rhanbarthol CLlLC neu gynllun Blaenau'r Cymoedd, ac fel arall. Bydd datblygiadau pellach yn y maes hwn yn hanfodol i gynnal safon o wasanaethau sy'n diwallu anghenion y cyhoedd.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio ardrethi busnes? (WAQ47875)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch cynigion i gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach drwy Gymru gyfan i ddisodli'r cynllun rhyddhad ardrethi gwledig a gafodd ei ehangu yn 2002 i helpu cymunedau gwledig i ddod dros clwy'r traed a'r genau.

Anfonwyd copi o'r papur ymgynghori a'r rheoliadau drafft at Aelodau Cynulliad ar 14 Medi 2006 ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan, ar gyfer pob blwyddyn er 2000, (a) faint o bobl sydd wedi cael llawdriniaeth blastig gan y GIG ac ar gyfer pa anhwylderau y rhoddwyd llawdriniaeth o'r fath a (b) y gost i'r GIG o ddarparu llawdriniaethau plastig? (WAQ47804)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae llawdriniaeth blastig yn cael ei chyflawni gan y GIG am amrywiaeth eang o gyflyrau, yn cynnwys llosgiadau, camffurfiadau cynhenid, anafiadau y mae angen llawdriniaeth arnynt, achosion trawma lle torrir aelodau i ffwrdd yn ogystal â llawer o gyflyrau malaen ac afiechydon neu gyflyrau eraill lle mae angen llawdriniaeth blastig.

Rhoddir gwybodaeth am y nifer o drigolion o Gymru sydd wedi cael llawdriniaeth blastig yn y tabl isod. Gan fod modd rhoi mwy nag un diagnosis i bob claf nid yw'n bosibl darparu data'n ganolog am ba ddiagnosis neilltuol yr oedd angen y llawdriniaeth blastig ar ei gyfer.

Trigolion o Gymru a gafodd lawdriniaeth blastig

| **Blwyddyn** | **Nifer** |
|---|---|
| 2000 | 3,931 |
| 2001 | 4,212 |
| 2002 | 4,075 |

| | |
|---|---|
| 2003 | 4,165 |
| 2004 | 4,673 |
| 2005 | 4,834 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru.

Nodyn: Gall unigolyn gael ei gynnwys mewn mwy nag un flwyddyn.

Dangosir cost llawdriniaethau plastig i’r GIG dros y pum mlynedd ddiwethaf yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| 2000-01 | £12.592 miliwn |
| 2001-02 | £9.394 miliwn |
| 2002-03 | £13.890 miliwn |
| 2003-04 | £10.602 miliwn |
| 2004-05 | £13.303 miliwn |

Ffynhonnell: Datganiadau costau arbenigeddau a rhaglenni (TFR2) gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru 2000-01 i 2004-05 (y data diweddaraf sydd ar gael).

Nodyn: costau am gleifion a gafodd eu trin yn ymddiriedolaethau GIG Cymru yn unig yw’r rhain.

**Carl Sargeant:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddiwallu anghenion iechyd meddwl pobl hyn? (WAQ47833)

**Brian Gibbons:** Lansiwyd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hyn ar 20 Mawrth. Mae a wnelo un o’r 10 safon ag iechyd meddwl wrth fynd yn hyn, ac mae’n ymdrin â’r materion penodol a wynebir gan bobl hyn a’u gofalwyr. Mae’r safon o blaid hyrwyddo lles meddwl yn y boblogaeth yn gyffredinol, yn ogystal â mesurau penodol i atal iselder a dementia, sy’n gyffredin ymysg yr henoed. Nod y safon yw gwella’r drefn i ddynodi, trin a gofalu am bobl hyn sydd â’r cyflyrau hyn, a newid y trefniadau gofal ar gyfer oedolion sydd â salwch meddwl parhaus wrth iddynt fynd yn hyn. Mae’r safon hon yn ategu’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl oedolion, sydd erbyn hyn yn cwmpasu oedolion drwyddynt draw. Mae’n canolbwyntio ar faterion dementia ac iselder.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cymryd rhan mewn ymchwiliad i iechyd meddwl a lles wrth i bobl fynd yn hyn. Cafodd hwn ei lansio yng Nghymru gan y Dirprwy Weinidog, John Griffiths. Menter ar y cyd yw hon rhwng Age Concern a'r Sefydliad Iechyd Meddwl. Ei nod yw dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a lleol, cynllunio ac ymarfer i sicrhau gwell iechyd meddwl i bobl hyn; codi proffil materion iechyd meddwl i'r grwp hwn; a darparu sail awdurdodol i bolisi, ymchwil a datblygiadau gwasanaeth yn y DU i'r dyfodol. Cyhoeddodd yr ymchwiliad hwn ran gyntaf ei waith ar hyrwyddo iechyd a lles meddwl ym mis Gorffennaf. Mae'r ail ran wedi cael ei chomisiynu gan yr ymchwiliad ac mae wedi dechrau'n ddiweddar. Bydd yn ystyried y dystiolaeth ymchwil ar atal problemau iechyd meddwl i grwpiau risg a grwpiau agored i niwed o bobl hyn, a'r cymorth a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'r rhai sy'n wynebu problemau felly.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am iechyd plant ysgol Cymru? (WAQ47836)

**Brian Gibbons:** Mae data am iechyd a lles plant ysgol Cymru ar gael o ddwy brif ffynhonnell. Y ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr yw'r arolwg ymddygiad iechyd mewn plant o oedran ysgol, a gefnogir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r arolwg yn darparu amrywiaeth o ddangosyddion iechyd ac ymddygiad iechyd i blant 11 i 15 oed mewn gwledydd ar draws Ewrop a Gogledd America. Mae'r canfyddiadau rhyngwladol diweddaraf o 2001-02, yn cynnwys y rhai am Gymru, i'w gweld ar http://www.hbsc.org/publications/reports.html. Mae data am y rhai sy'n cael eu trin am ystod o afiechydon a damweiniau ar gael o arolwg iechyd Cymru o blant hyd at 16 oed. Cyhoeddwyd ffigurau 2004-05 yn ddiweddar ac mae'r adroddiad llawn i'w weld ar http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/health-survey2004-05/?lang=en. Yn ychwanegol at y ddau arolwg cenedlaethol hyn, mae ffynonellau data eraill ar gael ac maent wedi cael eu crynhoi gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn ei broffil o iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar

http://www.wales.nhs.uk/sites/documents/368/ChildrenProfile200407.pdf.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei feini prawf ar gyfer monitro gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru? (WAQ47837)

**Brian Gibbons:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ddarostyngedig i'r un gofynion perfformiad ag ymddiriedolaethau eraill a byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Gosodir targedau cenedlaethol i GIG Cymru drwy'r fframwaith gwasanaeth ac ariannol ac mae'r rhain yn cynnwys targedau penodol i'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Yn ychwanegol mae gan yr ymddiriedolaeth ei cherdyn sgorio cytbwys ei hun, sy'n cynnwys cyfres o ddangosyddion i fonitro perfformiad.

Mae'r cyfrifoldeb am reoli perfformiad yr ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd yn gorffwys gyda swyddfa ranbarthol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gogledd.

Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn adrodd am ei pherfformiad yn erbyn y targedau a chaiff hynny ei gyhoeddi ar wefan StatsCymru.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ystyriaethau ar gyfer dyfodol Comisiwn Iechyd Cymru? (WAQ47838)

**Brian Gibbons:** Comisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd arbenigol ac mae hyn yn ategu rôl y byrddau iechyd lleol, sy'n comisiynu gwasanaethau eilaidd a chymunedol. Bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn parhau i gomisiynu ystod o wasanaethau er y bydd union natur ei bortffolio yn cael ei adolygu wrth i'r trefniadau comisiynu ddatblygu. Bydd ei rôl, sy'n esblygu, yn cael ei adolygu'n drylwyr yng nghyd-destun y canllawiau comisiynu newydd arfaethedig sydd i fod i gael eu comisiynu'n fuan.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu triniaeth yr arennau yng Nghymru? (WAQ47839)

**Brian Gibbons:** Mae mynediad cyflym at wasanaethau arennol o ansawdd uchel yn rhan annatod o strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau iechyd gyda'r gorau yn y byd.

Yr ydym yn datblygu'r fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i wasanaethau arennol er mwyn gwella ansawdd y gofal i'r rhai sydd â chlefyd yr arennau neu y mae risg iddynt ei ddatblygu. Yr ydym wedi sefydlu grwp cynghori arennol Cymru gyfan, a fydd yn datblygu rhaglenni gweithredu ar lefel genedlaethol i helpu i roi safonau'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses cymeradwyo cyffuriau yng Nghymru? (WAQ47840)

**Brian Gibbons:** Mae grwp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn rhoi cyngor imi am reoli a rhagnodi meddyginiaethau o safbwynt strategol. Mae ei fecanwaith cyfredol i adolygu meddyginiaethau costus wedi bod ar waith ers tair blynedd ac mae wedi rhoi cryn lawer o gefnogaeth i waith y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yng Nghymru a Lloegr.

Er mwyn gwella'r system ymhellach yr wyf yn ddiweddar wedi cymeradwyo cais gan grwp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan i ddatblygu strwythurau a gweithdrefnau i asesu grwpiau penodol o feddyginiaethau yn ychwanegol at y meddyginiaethau costus sydd eisoes yn cael eu cwmpasu gan y broses bresennol. Un grwp o'r fath yw'r cyfryngau gwrth-ganser. Bydd triniaethau ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd hefyd yn cael eu hystyried yn y ffordd hon. Bydd hyn yn galluogi rhwydweithiau trin yng Nghymru i ymdrin mewn modd cyson â pha feddyginiaethau sydd ar gael er mwyn datblygu cynlluniau rheoli cenedlaethol a llwybrau gofal. Bydd y system newydd yn ehangu

gallu'r broses cymeradwyo cyffuriau ac yn rhoi i GIG Cymru arfarniad cyflym o gyfanswm o 32 o gyffuriau canser, cardiaidd a chostus y flwyddyn.

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r taliadau a godir ar gleifion sy'n defnyddio ffonau yn ysbytai'r GIG? (WAQ47841)

**Brian Gibbons:** Nid oes asesiad wedi cael ei wneud o'r taliadau a godir ar gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau ffôn yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Nid yw Cymru wedi gwneud ymrwymiad statudol i sefydlu gwasanaethau ffôn wrth y gwely a mater i'r ymddiriedolaethau GIG unigol yng Nghymru yw pa un a oes systemau o'r fath yn cael eu cyflwyno.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leihau dyledion byrddau iechyd lleol ledled y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47843)

**Brian Gibbons:** Mae perfformiad ariannol pob corff GIG yn cael ei fonitro'n fisol gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r swyddfeydd rhanbarthol, sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad cyrff GIG unigol, mewn trafodaeth â'r cyrff hynny'n rheolaidd i sicrhau bod y pwysau ariannol yn cael eu deall yn llwyr ac maent yn gweithio gyda chyrff GIG ar hyn o bryd ar eu cynlluniau adfer ac ar y pwysau ariannol sy'n eu hwynebu yn 2006-07.

Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy ei swyddfeydd rhanbarthol, yn darparu cymorth sylweddol i gyrff GIG sy'n wynebu anawsterau ariannol. Fodd bynnag, mae gan bob corff gyfrifoldeb statudol i sicrhau ei fod yn dod i ben o fewn ei adnoddau ariannol a rhaid i bob corff GIG sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Cafodd y sefyllfa ddiweddaraf yn y GIG o ran diffygion, sefyllfa debygol 2006-07 a'r rhagolygon am 2007-08 eu trafod mewn cyfarfod dwyochrog gyda'r Gweinidog Cyllid ym mis Mai 2006 fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb. Dangosol yn unig yw'r ffigurau am 2006-07 ar hyn o bryd ac mae'r swyddfeydd rhanbarthol a'r cyrff GIG unigol yn gweithio i nodi sut yr ymdrinnir â'r holl risgiau a'r pwysau ariannol i sicrhau eu bod yn gallu mantoli eu cyllideb.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod hen ddiwylliant diffyg y GIG yn cael ei osgoi. Mae pwysau ariannol yn wynebu cyrff GIG yn 2006-07 y mae angen eu rheoli. Mae 'Cynllun Oes' yn nodi'r angen i foderneiddio gwasanaethau GIG ar draws Cymru a thrwy'r strategaeth hon, gyda chymorth y cynnydd sylweddol mewn cyllid buddsoddi cyfalaf, y bydd y GIG yn sicrhau bod gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud i wasanaethau clinigol ac i'r sefyllfa ariannol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau amseroedd aros yng Nghymru? (WAQ47844)

**Brian Gibbons:** Un o’n hamcanion pennaf yw gwella mynediad i gleifion a pharhau i gwtogi amseroedd aros. Y targed cyfredol yng Nghymru yw na ddylai unrhyw un, erbyn mis Mawrth 2007, aros mwy nag wyth mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol neu wyth mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd.

12 mis yw’r targed hwyaf ar hyn o bryd o ran amseroedd aros ac mae’r amseroedd aros diweddaraf a gyhoeddwyd, hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2006, yn dangos bod buddsoddiad y Cynulliad yn ein gwasanaeth iechyd, a gwaith caled staff y GIG, wedi arwain at ostyngiadau mawr mewn amseroedd aros ers y llynedd.

Ddiwedd mis Gorffennaf 2006, nid oedd unrhyw gleifion wedi bod yn aros dros 12 mis am driniaeth fel claf mewnol neu achos dydd, gostyngiad o 1,170 er mis Gorffennaf 2005. Dim ond 290 o gleifion sydd wedi bod yn aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol, gostyngiad o 13,269 dros y flwyddyn er mis Gorffennaf 2005.

Ar yr un dyddiad, yr oedd dros 78 y cant o’r cleifion ar y rhestr aros cleifion mewnol/achosion dydd a thros 83 y cant o’r cleifion ar y rhestr aros cleifion allanol wedi bod yn aros llai na chwe mis.

Erbyn mis Rhagfyr 2009, cyfanswm targed yr amser aros o’r adeg y caiff claf ei gyfeirio gan feddyg teulu hyd at driniaeth—yn cynnwys aros am brofion diagnostig a therapïau—fydd 26 wythnos.

Yr ydym yn canolbwyntio ar weithredu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn dod â budd cynaliadwy, tymor hir i gleifion. Fel rhan o’r trefniadau rheoli perfformiad i’r GIG yng Nghymru, mae uned cyflenwi a chymorth wedi cael ei sefydlu. Bydd yr uned yn gweithio gyda’r tair swyddfa ranbarthol i reoli perfformiad y sefydliadau GIG hynny y mae un ai angen cymorth arnynt i gyrraedd y targedau hyn a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, neu nad ydynt wedi llwyddo i gyrraedd targed penodol.

**Irene James:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i leihau lefel y clefydau a drosglwyddir yn rhywiol ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru? (WAQ47876)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal ymgyrch barhaus i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, sy’n cael ei thargedu at bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Caiff posteri a thaflenni gwybodaeth eu harddangos yn nhoiledau tafarnau, clybiau, prifysgolion a cholegau, clybiau ieuenctid a gwahanol sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru. Mae rhaglen i foderneiddio’r gwasanaethau iechyd rhywiol yn ceisio sicrhau cyngor hygyrch ar iechyd rhywiol i bobl ifanc.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru pob prosiect cyfalaf GIG a ariannwyd gan fenter cyllid preifat neu bartneriaethau cyhoeddus preifat er 2003, gan gynnwys manylion am ddyddiadau

dyfarnu’r contractau, cost y contractau i’r GIG a’r prosiect a ddarparwyd? (WAQ47877)

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw gynlluniau partneriaeth cyhoeddus-preifat â dyddiad cychwyn contract er 2003 wedi cael eu datgelu. Mae’r fenter cyllid preifat wedi cyllido dau gynllun gan GIG Cymru er 2003. Mae’r manylion wedi’u cynnwys yng nghyfrifon cyhoeddedig blynyddol y naill ymddiriedolaeth GIG a’r llall am 2005-06, ac mae detholiad ohonynt i’w weld isod:

| | **Conwy a Sir Ddinbych: Uned yr Arennau** | **Gogledd Morgannwg: Cynllun Ynni** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y gost (£’000) | 1,673 | 995 |
| Dyddiad cychwyn contract | Medi 2004 | Ebrill 2004 |

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan cyfanswm gwerth pob contract GIG a ddyfarnwyd i’r sector preifat ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ47878)

**Brian Gibbons:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnforio reis hir o’r Unol Daleithiau, yn dilyn darganfod LLRICE 601 mewn rhai cyflenwadau? (WAQ47881)

**Nick Bourne:** Beth yw’r goblygiadau posibl i iechyd y cyhoedd yng Nghymru o ddarganfod LLRICE 601 mewn allforion reis hir o’r Unol Daleithiau? (WAQ47886)

**Brian Gibbons:** Fe’m cynghorir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd y dylai’r holl fewnforion reis hir o Unol Daleithiau America i unrhyw wlad CE gyrraedd gyda thystysgrif yn dangos eu bod yn rhydd o reis GM LLRICE601. Mae unrhyw lwythi sy’n cyrraedd heb dystysgrif yn cael eu dal yn y porthladdoedd hyd nes y gellir tystio eu bod yn rhydd o LLRICE601. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn arwain trafodaethau gydag awdurdodau’r UD i sicrhau nad oes unrhyw gynnyrch pellach sy’n cynnwys deunydd GM sydd heb gael ei awdurdodi yn cael ei allforio i Ewrop. Yn ychwanegol at hyn mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn comisiynu arolwg o reis hir o America mewn melinau reis yn y DU, i sicrhau bod unrhyw reis a fewnforiwyd cyn i’r digwyddiad ddod i’r amlwg hefyd yn rhydd o reis GM nad yw wedi cael ei awdurdodi.

Ceisiodd yr Asiantaeth gyngor brys gan aelodau o bwyllgorau arbenigol annibynnol y DU sy’n rhoi cyngor i’r Llywodraeth ar faterion diogelwch bwyd GM. Ar sail y dystiolaeth gyfredol, eu cyngor oedd nad yw presenoldeb lefelau isel o’r deunydd GM hwn yn y cyflenwad bwyd yn peri pryder o

safbwynt diogelwch.

Mae’r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd wedi cyhoeddi ei farn fanwl am LLRICE601 yn ddiweddar. Daeth ei banel arbenigwyr i’r farn nad yw bwyta reis hir sy’n cynnwys mymryn o LLRICE601 yn debygol o achosi pryder ar unwaith am ddiogelwch pobl nac anifeiliaid.

Mae’r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi y bydd yn cynnull cyfarfod pellach gydag Aelod Wladwriaethau i ail-werthuso’r sefyllfa yng ngoleuni barn yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac fel y daw rhagor o ddata monitro ar gael gan aelod wladwriaethau.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau cleifion yng Nghonwy i weld deintydd GIG? (WAQ47888)

**Lisa Francis:** Pa opsiynau sydd ar gael i gleifion deintyddol nad ydynt yn gallu cofrestru gyda deintydd GIG? (WAQ47891)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd deintyddion GIG yng Nghonwy? (WAQ47889)

**Brian Gibbons:** Rhaid i driniaeth a gynigir o dan y GIG fod yn angenrheidiol yn glinigol i sefydlu a chynnal iechyd ceg claf. Mae’n gyfrifoldeb ar weithwyr proffesiynol deintyddol i roi buddiannau cleifion yn gyntaf a gweithredu i’w hamddiffyn gan barchu eu hurddas a’u dewisiadau yr un pryd.

Mater i’r bwrdd iechyd lleol unigol yw’r ddarpariaeth a’r lefel o bob gwasanaeth GIG, a’r bwrdd sy’n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau yn ei ardal. Mae rôl gomisiynu newydd y BILlau yn sgil cyflwyno’r contract deintyddol newydd yn rhoi iddynt y gallu i lunio ac ehangu’r gwasanaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Os oes ar unrhyw un angen dod o hyd i ddeintydd sy’n darparu gofal GIG, dylai gysylltu â’r BILl gan mae’r byrddau sydd yn y sefyllfa orau i roi gwybodaeth i drigolion am lefel a lleoliad y ddarpariaeth gwasanaethau. Bydd y BILl hefyd yn gallu dweud ble y gall cleifion gael triniaeth ddeintyddol frys a thu allan i oriau os nad ydynt wedi cofrestru i gael triniaeth ddeintyddol gan y GIG.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y loteri cod post gyda’r ddarpariaeth ar gyfer cleifion deintyddol yng Nghonwy? (WAQ47890)

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau ar gael triniaeth ddeintyddol GIG yn ardal Conwy sy’n dibynnu ar ffactorau megis ble mae pobl yn byw. Nid yw’n anghyffredin i bobl geisio gwasanaethau deintyddol y tu hwnt i ardal y BILl y maent yn byw ynddi gan fod llawer o gleifion yn cael triniaeth lle maent yn gweithio neu’n siopa am fod hynny’n fwy hwylus.

Gall y BILlau, fel comisiynwyr lleol, ddewis rhoi blaenoriaeth i wella mynediad deintyddol i gleifion yn eu hardal wrth iddynt ehangu'r mynediad at ofal deintyddol arferol. Fodd bynnag, dim ond ar sail dros dro tra bo'r gwasanaethau'n cael eu hehangu y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i grwpiau neilltuol o gleifion, fel trigolion ardal y bwrdd ei hun.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y cyllid a roddwyd i bractisiau newydd yn Sir Gaerfyrddin ers datblygu'r contract deintyddol newydd, a pha gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer sefydlu practisiau newydd? (WAQ47905)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa gyllid (a) a wnaed ar gael, a (b) a wariwyd ar (i) wasanaethau deintyddol cyffredinol, (ii) gwasanaethau deintyddol personol er Mawrth 2006 yn Sir Gaerfyrddin? (WAQ47906)

**Brian Gibbons:** Rhoddwyd cyllidebau deintyddol i'r BILlau, a oedd yn cynnwys elfen o dwf, ar gyfer 2006-07 ym mis Ebrill. Ynghyd â'r cyllid hwn cafwyd buddsoddiad ychwanegol yn y contract newydd o £30 miliwn o 2006-07. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn y gwariant net ar ddeintyddiaeth o dros 89 y cant ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu yn 1999.

Cafodd £3 miliwn o'r buddsoddiad ychwanegol o £30 miliwn ei ddyrannu i wella mynediad at ddeintyddiaeth GIG, mewn ardaloedd lle mae mynediad yn dal i fod yn anodd. Mae BILl Caerfyrddin wedi cyflwyno cynnig am ei gyfran ef o'r arian ac mae'r swm llawn o £375,085 wedi cael ei ryddhau erbyn hyn. Mae'r adnoddau ychwanegol hyn yn cael eu neilltuo i wasanaethau deintyddol GIG a byddant yn galluogi'r BILlau yn yr ardal i brynu gwasanaethau deintyddol ychwanegol drwy'r trefniadau comisiynu lleol i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi amserlen ar gyfer gweithredu elfennau gwledig y contract fferylliaeth? (WAQ47908)

**Brian Gibbons:** Caiff y contract fferylliaeth ei adolygu'n rheolaidd ar lefel genedlaethol a lleol. Yr wyf yn dal i ymrwymo i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cael gwasanaeth da gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol ac mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gynigion sy'n cymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad am 'reoli mynediad' a fydd yn sicrhau bod hyn yn dal i ddigwydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** Yn sgil WAQ47692, a wnaiff y Gweinidog a) datgan canlyniad pob astudiaeth a restrwyd, b) cyhoeddi unrhyw adroddiadau a baratowyd yn sgil yr astudiaethau a restrwyd ac c) rhoi manylion cylch gorchwyl pob astudiaeth? (WAQ47805)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae'r wybodaeth a geisiwch yn y tabl a gyhoeddwyd fel gwybodaeth ychwanegol at y ffeil hon.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch diogelwch carchardai yng Nghymru? (WAQ47811)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi bod yn gohebu â Gerry Sutcliffe, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr, ynglyn â'r digwyddiadau ym Mhrescoed yn ddiweddar. Holais ef am yr achosion diweddar pan ddihangodd carcharorion, a gofynnais a fyddai'r Swyddfa Gartref yn adolygu ei pholisi i drosglwyddo troseddwyr a allai fod yn beryglus i garchardai agored. Fe'm sicrhaodd mai dim ond ar ôl craffu manwl ac ar argymhelliad penodol y bwrdd parôl y byddai carcharorion o'r fath yn cael eu trosglwyddo. Ni fydd y Swyddfa Gartref yn adolygu'r polisi ond yr wyf wedi gofyn am gael gwybodaeth yn gyson am yr ymchwiliad i'r carcharor a ddihangodd o Brescoed yn ddiweddar.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ei nod o ddileu tlodi ymhlith plant? (WAQ47921)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi sefydlu nifer sylweddol o bolisïau a rhaglenni ar draws Llywodraeth y Cynulliad gyda'r nod o ymladd tlodi ymhlith plant. Mae fy Nirprwy Weinidog wedi datblygu cynllun gweithredu ynglyn â thlodi plant sy'n cynnwys amryw o gynigion polisi cyffredinol a phenodol, megis prawfesur holl gynlluniau newydd Llywodraeth y Cynulliad o safbwynt plant, cynyddu incwm teuluoedd i'r eithaf ac argymhellion o ran gweithgareddau dros wyliau'r haf a darpariaeth chwarae. Yr wyf hefyd yn bwriadu darparu papur i'r Cabinet yn fuan am ystod o dargedau a cherrig milltir trawsbynciol i fonitro a mesur y cynnydd tuag at ein nod o ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru erbyn 2020.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yng Nghymru? (WAQ47923)

**Edwina Hart:** Yr wythnos ddiwethaf rhoddais fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gamddefnyddio sylweddau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae hwn ar gael ar y fewnrwyd.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth y Cynulliad hwn ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol? (WAQ47932)

**Edwina Hart:** Yr wythnos ddiwethaf rhoddais fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gamddefnyddio sylweddau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Yn ogystal â'r cynnydd hyd yma, yr oedd hefyd yn cynnwys manylion peth o'r gwaith sy'n cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad ar gael ar y fewnrwyd.

**Rosemary Butler:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gyfrannu tuag at atal camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru? (WAQ47935)

**Edwina Hart:** Yr wythnos ddiwethaf rhoddais fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gamddefnyddio sylweddau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae hwn ar gael ar y fewnrwyd.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau dyled yng Nghymru? (WAQ47937)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn pryderu am y lefelau dyled gormodol yn enwedig yn ein cymunedau tlotaf. Canfu dadansoddiad o'r defnydd o gredyd yng Nghymru a wnaed gan Gyngor Defnyddwyr Cymru yn 2003 fod gan fwy o aelwydydd yng Nghymru (57 y cant) ymrwymiadau credyd byw na'r cyfartaledd Prydeinig (47 y cant). Ar ben hynny, yr oedd 60 y cant o aelwydydd Cymru wedi bod yn brwydro bryd hynny un ai i osgoi neu i reoli ôl-ddyledion o chwe mis neu ragor. Oherwydd y canfyddiadau hyn y cynhaliwyd adolygiad y Dirprwy Weinidog o ddyledion gormodol. Caiff datganiad ar weithredu'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adolygiad ei wneud i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 19 Hydref.